
Partneriaeth Cydwasanaethau
Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr
Shared Services Partnership
Student Awards Services

# Y Broses Ymgeisio a Thystiolaeth

## Cwestiynau Cyffredin

## Adrannau:


1. Cynnydd y Cais
2. Cymorth gyda’r Cais
3. Diwygiadau i'r Cais
4. Tystiolaeth
5. Olrhain Dogfennau


Partneriaeth Cydwasanaethau
Gwasanaethau Dyfarniadau
Shared Services Partnership
Student Awards Services


*Mehefin 2021*

| Cwestiynau | | Ymateb |
|---|---|---|
| **Cynnydd y Cais** | | |
| | Beth yw'r dyddiad cau i wneud cais am fy mwrsariaeth? | **Myfyrwyr Newydd:**<br><br>Dylech wneud cais am fwrsariaeth y GIG cyn gynted ag y byddwch wedi derbyn cynnig pendant gan y brifysgol o'ch dewis. Y dyddiad olaf ar gyfer **gwneud cais** am gyllid yw 10 wythnos ar ôl dechrau ar y cwrs. Er mwyn cwrdd â’r terfyn amser hwn, rhaid i chi gyflwyno cais bwrsariaeth ar-lein a derbyn e-bost trwy'r system ar-lein yn cadarnhau'r dystiolaeth sydd angen i chi ddarparu.<br><br>**Myfyrwyr sy’n Parhau:**<br><br>Dylech wneud cais cyn gynted ag y bydd ceisiadau ar agor i sicrhau bod eich bwrsariaeth yn parhau i'r Flwyddyn Academaidd nesaf heb oedi. Dylai myfyrwyr edrych ar ein Gwefan a Twitter i ddarganfod pryd mae ceisiadau ar gael.<br><br>Gwefan: Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr – Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru<br><br>Twitter: @nwsspsas<br><br>Yn ddelfrydol, dylai myfyrwyr wneud cais a darparu tystiolaeth ategol o fewn 6 mis i'r Flwyddyn Academaidd ddechrau. |
| | Ar ôl i mi gyflwyno fy nghais, pa mor hir fydd hi cyn i mi dderbyn diweddariad? | Ar ôl i gais gael ei gyflwyno, fe gewch e-bost awtomatig yn gofyn am dystiolaeth penodol y bydd angen i chi eu hanfon trwy'r post. E-bost awtomataidd yw hwn a bydd yn cael ei anfon yn syth ar ôl cyflwyno'ch cais trwy'r system Cymorth Ar Lein ar gyfer Bwrsariaethau (BOSS). Byddwch hefyd yn gallu dod o hyd i gopi o’r e-bost hwn o dan adran ‘Dogfennau’ eich cyfrif.<br><br>Ar ôl anfon yr holl dystiolaeth gefnogol, gall gymryd hyd at 20 diwrnod gwaith i'ch Asesydd adolygu ac asesu'ch cais. Os oes unrhyw broblemau gyda'ch cais, neu os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom, bydd aelod o staff yn cysylltu â chi naill ai drwy e-bost neu drwy hysbysiad ar eich cyfrif BOSS.<br><br>Am ragor o wybodaeth, ewch i'r Llinell Amser Ceisiadau Bwrsariaeth yma: Canllawiau / Cwestiynau Cyffredin - Cydwasanaethau GIG Cymru |
| | Rwyf am ddarllen ychydig mwy o wybodaeth am y | I gael y wybodaeth ddiweddaraf am y broses ymgeisio a Chwestiynau Cyffredin, ewch i'n Canllawiau, ein Llinellau Amser a'n Cwestiynau Cyffredin trwy'r linc isod: |

| | | |
|---|---|---|
| | broses ymgeisio, beth yw'r wefan orau i ymweld â hi? | Canllawiau / Cwestiynau Cyffredin - Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru |
| | Faint o amser mae'n cymryd i asesu cais? | Unwaith y bydd yr holl dystiolaeth wedi cael ei hanfon i mewn, gall gymryd hyd at 20 diwrnod gwaith i'ch cais a'ch tystiolaeth gefnogol gael eu hasesu. Os na fyddwch yn clywed wrthym o fewn yr amser hwnnw, peidiwch â phoeni, os oes unrhyw broblemau gyda'ch cais bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod hyn. |
| | Sut alla i wirio cynnydd fy nghais ar gyfer bwrsariaeth? | Dangosir cynnydd eich cais yn adran 'Gweithgareddau' eich sgrin 'Manylion i Fyfyrwyr' yn system BOSS. Bydd statws eich cais yn dangos fel un o'r canlynol:<br><br>**Yn yr arfaeth** - Mae eich cais wedi'i gyflwyno ac rydym yn aros i dystiolaeth gefnogol gael ei sganio i'ch cyfrif neu mae Aseswr wedi edrych ar eich cais ac wedi cael ei ailosod i 'yn yr arfaeth' gan fod angen tystiolaeth bellach.<br>**Gweithredol** - Mae'ch cais wedi'i gyflwyno ac mae tystiolaeth wedi'i sganio i'ch cyfrif am asesiad.<br>**Cymeradwywyd** - Mae eich cais wedi ei asesu a'i gymeradwyo.<br>**Gwrthodwyd** - Gwrthodwyd eich cais h.y. oherwydd tystiolaeth annigonol neu am nad oedd yn cwrdd â meini prawf penodol. Efallai y bydd gofyn i'r myfyriwr ailymgeisio. |
| | Beth sy'n digwydd ar ôl i'r Fwrsariaeth gael ei hasesu? | Unwaith y bydd y fwrsariaeth wedi'i hasesu ac wedi'i chwblhau, byddwch yn derbyn Hysbysiad o Ddyfarniad (NOA) trwy eich cyfrif BOSS ar-lein. Byddwch hefyd yn derbyn hysbysiad e-bost yn eich gwahodd i fewngofnodi i'ch cyfrif BOSS i weld eich Hysbysiad. Byddwn hefyd yn rhannu'r wybodaeth hon â'ch Prifysgol fel y gallant ddechrau trefnu i'r taliadau gael eu gwneud i chi. |
| **Cymorth gyda'r Cais** | | |
| | Beth yw'r terfynau amser ar gyfer gwneud cais am Fwrsariaeth GIG? | Dylech wneud cais am eich bwrsariaeth GIG cyn gynted a'ch bod wedi derbyn cynnig pendant gan y brifysgol o'ch dewis. Y dyddiad diweddaraf ar gyfer gwneud cais yw 10 wythnos ar ôl dechrau'r cwrs.<br>Er mwyn cwrdd a'r terfyn amser hwn mae'n rhaid i chi gyflwyno cais bwrsariaeth ar-lein a derbyn e-bost trwy'r system ar-lein sy'n cadarnhau'r dystiolaeth sydd angen i chi ddarparu.<br><br>Pe bai eich amgylchiadau'n newid mewn unrhyw ffordd, rhaid i chi hysbysu'r Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr a darparu'r holl dystiolaeth ofynnol o fewn 6 mis i ddyddiad eich newid er mwyn ailasesu'r cais. |
| | Sut a phryd y telir Bwrsariaeth GIG Cymru? | Eich Prifysgol sy'n gyfrifol am wneud taliadau felly cysylltwch ag Adran Gyllid eich Prifysgol a fydd yn gallu eich cynghori ymhellach. |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| | A all fy Rhiant (Rhieni) / Partner / Partner Sifil / Priod neu gynrychiolydd arall gwblhau'r Cais ar fy rhan? | Na - Bydd angen i chi lenwi'r cais yn uniongyrchol, fodd bynnag, ar rai rhannau o'r ffurflen Gais Fwrsariaeth, mae yna feysydd ychwanegol lle gallai fod angen gwybodaeth bellach amdano chi'ch hun naill ai gan eich rhieni neu unrhyw un arall. |
| | Os yw fy Rhiant (Rhieni), Partner / Partner Sifil / Priod neu gynrychiolydd trydydd parti yn cysylltu â Desg Gymorth Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr (SAS), a allant drafod fy nghais ar fy rhan? | Gallant - caniateir hyn, fodd bynnag cyn iddynt gysylltu, rhowch wybod i ni eich bod wedi rhoi caniatâd iddynt gysylltu â ni ar eich rhan.<br><br>Os ydyn nhw'n cysylltu â ni dros y ffôn, gwnewch yn siŵr bod y wybodaeth ddiogelwch yn barod fel eich enw a'ch cyfeiriad sydd wedi'u rhestru ar eich cyfrif BOSS.<br><br>Os na allant ateb y cwestiynau diogelwch yn gywir, yna ni fyddwn yn gallu trafod y cais gyda nhw. |
| | Ble alla i ddod o hyd i'm Rhif Ymgeisydd / Cyfeirnod Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr? | I ddod o hyd i'r wybodaeth hon, bydd angen i chi fewngofnodi i'ch cyfrif BOSS.<br><br>Dylai eich cyfeirnod fod ar frig y sgrin ac fe ddylai ddechrau gyda SAS, ac yna 6 rhif, Er enghraifft: SAS000000 |
| | Nid wyf yn deall ambell gwestiwn ar y<br><br>Ffurflen gais, beth ddylwn i wneud? | O fewn y ffurflen gais, mae gan rai cwestiynau opsiwn i glicio ar 'hint' sy'n darparu gwybodaeth bellach. Lle bynnag y gwelwch chi '?' wrth ymyl cwestiwn, hofrwch dros y symbol hwn. Yna, fe ddylai blwch gwybodaeth ymddangos gyda manylion pellach.<br><br>Fel arall, i gael cymorth gyda'ch cais, cyflwynwch unrhyw ymholiadau sydd gennych trwy ein mewnflwch e-bost generig neu cysylltwch â ni trwy'r ddesg gymorth lle gallwn eich cynorthwyo ymhellach. |
| | Os oes angen rhywfaint o help arnaf i ddod o hyd i'r atebion i gwestiynau'r Cais, ble alla i fynd? | I gael y wybodaeth ddiweddaraf am y broses ymgeisio, ewch i wefan Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr trwy'r linc ganlynol https://nwssp.nhs.wales/ourservices/student-awards-services/<br><br>Os oes dal angen cymorth arnoch gyda'ch cais, anfonwch eich ymholiad trwy e-bost at abm.sas@wales.nhs.uk neu cysylltwch â |

| | | |
|---|---|---|
| | | ni trwy'r Ddesg Gymorth: [Cysylltwch â Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr – Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru] |
| | A oes angen i mi lenwi'r un ffurflen gais bob blwyddyn yr wyf am wneud cais am y fwrsariaeth? | Oes, bydd angen i chi wneud cais am eich bwrsariaeth ar gyfer pob blwyddyn academaidd er mwyn i'ch cyllid barhau. |
| | Pryd mae angen cyflwyno fy nghais? | **Myfyrwyr Newydd:**<br><br>Dylech gwblhau a **chyflwyno** eich Cais o fewn **10 wythnos** o ddyddiad cychwyn eich cwrs. Rhaid darparu tystiolaeth ategol o fewn y Flwyddyn Academaidd berthnasol i ystyried eich cyllid.<br><br>Er enghraifft, os byddwch chi'n dechrau ar Fedi'r 1af bydd gofyn i chi gyflwyno'ch Cais erbyn y 9fed o Dachwedd.<br><br>Ar ôl i'r dyddiad cau 10 wythnos basio, os nad ydych wedi cyflwyno cais, bydd eich Cyfrif BOSS yn cael ei ddad-actifadu ac ni fyddwch yn gallu gwneud unrhyw newidiadau pellach.<br><br>Os ydych yn dal i ddymuno gwneud Cais ond heb lwyddo cyn y dyddiad cau, rydym yn awgrymu eich bod yn cysylltu â Gwella Addysg Iechyd yng Nghymru (HEIW) yn uniongyrchol trwy HEIW.EdCommissioning@wales.nhs.uk i drafod gyda nhw. Fodd bynnag, nid oes unrhyw sicrwydd y caiff eich cais ei dderbyn. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth yma: [Myfyrwyr Newydd – Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru]<br><br>**Myfyrwyr sy'n Parhau:**<br><br>Bydd gennych hyd at 6 mis ar ôl dechrau'r Flwyddyn Academaidd i gwblhau a chyflwyno'ch cais bwrsariaeth. Rhaid darparu tystiolaeth ategol o fewn y Flwyddyn Academaidd berthnasol i ystyried eich cyllid. |
| | Beth yw myfyriwr annibynnol? | Mae ein rheoliadau yn nodi'r meini prawf ar gyfer Myfyriwr Annibynnol fel a ganlyn: -<br><br>• Rydych chi'n briod, mewn partneriaeth sifil, wedi gwahanu, wedi ysgaru neu yn weddw<br>• Rydych yn gofalu am blentyn.<br>• Nid oes gennych chi rieni byw<br>• Rydych wedi cefnogi'ch hun o'ch enillion eich hun am gyfanswm o 36 mis cyn dechrau'r flwyddyn academaidd gyntaf. ***Sylwch fod yn rhaid i hyn eithrio unrhyw gyfnodau o addysg llawn amser.***<br>• Rydych chi wedi ymddieithrio yn anghymodlon oddi wrth eich rhieni. Bydd myfyriwr yn cael ei ystyried wedi'i ymddieithrio yn anghymodlon oddi wrth ei riant / rieni os nad yw wedi cyfathrebu ag un o'r ddau ohonynt am gyfnod o 12 mis o leiaf. ***Cyfrifoldeb y myfyriwr yw darparu tystiolaeth gadarn a*** |

***dibynadwy sy'n cadarnhau'r ymddieithrio a'r rhesymau dros hyn. Wrth edrych ar ymddieithrio nid yw'n ddigon nad yw myfyriwr yn cyd-dynnu gyda'i riant (rhieni) neu y gallent fod wedi cael rhyw fath o ddadl neu anghytundeb yn ddiweddar. Hefyd, nid yw'r ffaith y gall myfyriwr ddewis byw ar wahân i'w riant / rieni yn dystiolaeth ddigonol o ymddieithrio. Ar ben hynny, ni ellir hawlio ymddieithrio am fod rhiant yn gwrthod cydweithio wrth asesu grant y myfyriwr, e.e. trwy wrthod llenwi'r ffurflenni cais, neu am fod rhiant yn methu â darparu cymorth ariannol.***

- Rydych chi'n aelod o urdd grefyddol ac yn byw yn nhŷ'r urdd

Sut mae cyfraniad Rhiant, Partner / Partner Sifil / Priod yn cael ei gyfrifo?

Cyfraniad y rhiant / partner / priod yw'r swm yr ydym yn ei ddidynnu o'r uchafswm hawl, gan ddibynnu ar incwm eich rhiant / rhieni / Priod / Partner Sifil / Partner. Gwelir hyn ar eich Hysbysiad Dyfarniad (NOA) a gyhoeddir unwaith y bydd eich cais wedi'i gymeradwyo. Nid yw hwn yn swm o arian sy’n rhaid i'ch rhiant (rhieni) / Priod / Partner Sifil / Partner ei ddarparu ar eich cyfer.

Cyfrifir cyfraniad y rhiant / priod ar £45 ac £1 am bob £ 9.50 o incwm gweddilliol sy'n fwy na £24,279.

**Tabl cyfraniadau:**

Byddwch yn ymwybodol, nad oes uchafswm trothwy cyfraniad felly gallai'r tabl hwn barhau.

| Contribution rates for parents(s), spouse, civil partner, partner | | | |
|---|---|---|---|
| **If the Residual income is:** | **Contribution will be:** | **If the Residual income is:** | **Contribution will be:** |
| Under £24,279 | Nil | £65,000 | £4,331 |
| £24,279 | £45 | £67,500 | £4,594 |
| £25,000 | £120 | £70,000 | £4,857 |
| £27,500 | £384 | £72,500 | £5,120 |
| £30,000 | £647 | £75,000 | £5,384 |
| £32,500 | £910 | £77,500 | £5,647 |
| £35,000 | £1,173 | £80,000 | £5,910 |
| £37,500 | £1,436 | £82,500 | £6,173 |
| £40,000 | £1,699 | £85,000 | £6,436 |
| £42,500 | £1,963 | £87,500 | £6,699 |
| £45,000 | £2,226 | £90,000 | £6,963 |
| £47,500 | £2,489 | £92,500 | £7,226 |
| £50,000 | £2,752 | £95,000 | £7,489 |
| £52,500 | £3,015 | £97,500 | £7,752 |
| £55,000 | £3,278 | £98,000 | £7,805 |
| £57,500 | £3,541 | £98,500 | £7,857 |
| £60,000 | £3,805 | £99,000 | £7,910 |
| £62,500 | £4,068 | £99,833 | £7,998 |

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth yma: [Taliadau / Cyfraddau / Astudiaethau Achos - Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru]

## Diwygiadau i'r Cais

| | | |
|---|---|---|
| | Rwyf wedi gwneud gwall ar fy ffurflen Gais, sut mae cywiro hyn ar ôl ei gyflwyno? | Bydd yn dibynnu ar y gwall neu'r newidiadau sy'n ofynnol. Dylech gysylltu â'n Llinell Gymorth neu e-bostio abm.sas@wales.nhs.uk yn gyntaf yn esbonio'r gwall. Bydd ein staff llinell gymorth yn eich cynghori yn unol â hynny. Efallai caiff eich cais ei wrthod er mwyn i chi ailymgeisio gyda'ch manylion / amgylchiadau cywir. Os yw'n wall bach, er enghraifft enw anghywir, dyddiad geni neu ffigwr incwm anghywir, gellir gwneud nodyn ar eich cyfrif i'r Aseswr ei adolygu wrth brosesu.<br><br>Byddwch yn ymwybodol, bydd angen tystiolaeth gefnogol bob amser i unioni unrhyw wallau. |
| | Beth ddylwn i wneud os bydd fy amgylchiadau'n newid? | Os bu newid i'ch amgylchiadau ers i chi gyflwyno'ch cais bwrsariaeth cychwynnol, e-bostiwch abm.sas@wales.nhs.uk gan amlinellu'r newid ynghyd â'r dyddiad y daeth y newid i rym. **Cofiwch gynnwys eich enw, eich dyddiad geni a'ch rhif Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr (SAS) yn eich e-bost.**<br><br>Mewn achosion lle mae myfyriwr yn gofyn am Lwfans Dibynnydd neu'n datgan incwm y cartref am y tro cyntaf, gofynnir i'r myfyriwr gyflwyno cais newydd trwy ei gyfrif BOSS. Yna bydd y myfyriwr yn derbyn e-bost tystiolaeth awtomatig yn amlinellu'r ddogfennaeth sydd eu hangen. **Ymhob achos, anfonwch e-bost atom yn uniongyrchol a bydd aelod o'r tîm yn ymateb i'ch ymholiad.**<br><br>Rhaid i chi ein hysbysu a darparu'r holl dystiolaeth berthnasol o fewn chwech<br>mis o'r dyddiad y bu newid yn eich amgylchiadau er mwyn cael eich ystyried ar gyfer ailasesiad. |
| | Sut ydw i'n rhoi gwybod i chi am newid cyfeiriad? | Os bu newid cyfeiriad ers cyflwyno'ch cais bwrsariaeth cychwynnol, e-bostiwch abm.sas@wales.nhs.uk gyda'ch cyfeiriad newydd a'r dyddiad newid cyfeiriad. **Cofiwch gynnwys eich enw, eich dyddiad geni a'ch rhif Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr (SAS) yn eich e-bost.**<br><br>Bydd angen i chi anfon tystiolaeth ar ffurf naill ai a<br>cytundeb tenantiaeth, datganiad morgais neu lythyr oddi wrth eich landlord os ydych chi o fewn un o'r categorïau canlynol:<br><br>• Rydych yn derbyn Lwfans Dibynnydd, Lwfans Dysgu Rhieni a / neu Lwfans Gofal Plant<br><br>• Rydych yn derbyn Lwfans Dibynnydd, Lwfans Dysgu Rhieni a / neu Lwfans Gofal Plant.<br><br>• Rydych chi'n symud o gartref eich rhiant i'ch llety eich hun.<br><br>Os na fyddwch yn dod o fewn y categorïau uchod ni fydd yn ofynnol i chi anfon tystiolaeth o'ch cyfeiriad newydd. |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| | Sut mae rhoi gwybod i chi am newid enw? | Os bu newid enw ers cyflwyno'ch cais bwrsariaeth cychwynnol, e-bostiwch abm.sas@wales.nhs.uk gyda'ch enw newydd a'r dyddiad newid enw. **Cofiwch gynnwys eich enw, eich dyddiad geni a'ch rhif Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr (SAS) yn eich e-bost.**<br><br>Yn anffodus, ni allwn newid eich enw ar eich Taflen Glawr Myfyriwr gan fod hyn yn cael ei gynhyrchu gan y system pan fyddwch chi'n cofrestru'ch cyfrif BOSS. Peidiwch â phoeni, ni fydd hyn yn achosi unrhyw broblem gan fod y cod bar a'r cyfeirnod SAS yn cael eu defnyddio i ddod o hyd i'ch cofnod. |
| | Sut alla i newid manylion fy nghyfrif banc? | Bydd angen i chi fewngofnodi i'ch cyfrif BOSS a chyflwyno newid trwy'r tab 'Diweddaru Manylion Banc'.<br><br>Yna byddwch yn gallu gweld y manylion banc wedi'u diweddaru yn eich cyfrif BOSS.<br><br>Dim ond ar ôl i'ch cais gael ei gymeradwyo y byddwch yn gallu gweld a newid manylion eich cyfrif banc. |
| | Ga i newid o fod yn fyfyriwr dibynnol i fyfyriwr annibynnol? | Efallai y gallwch newid eich statws o fod yn ddibynnol i fyfyriwr annibynnol mewn rhai amgylchiadau. **Ni fyddwch yn gallu newid eich statws ran o'r ffordd trwy'r flwyddyn.**<br><br>Os bydd eich amgylchiadau'n newid, e-bostiwch abm.sas@wales.nhs.uk yn amlinellu'ch newid mewn amgylchiadau ochr yn ochr â'r dyddiad newid effeithiol. **Cofiwch gynnwys eich enw, eich dyddiad geni a'ch rhif Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr (SAS) yn eich e-bost.**<br><br>Gall eich statws newid am y rhesymau canlynol:<br>• Priodas / Partneriaeth Sifil,<br>• Rydych yn gofalu am blentyn gan gynnwys gwarcheidiaeth gyfreithiol neu fabwysiadu.<br>• Mae eich rhiant / rhieni yn marw<br><br>Os byddwch chi'n dod yn annibynnol am unrhyw un o'r rhesymau hyn, dim ond ar ddechrau'r flwyddyn academaidd **nesaf** y byddwch chi'n dod yn annibynnol.<br><br>Os na wnaethoch chi sylweddoli eich bod wedi cyflawni'r meini prawf i'w hystyried ar gyfer bod yn annibynnol ar ddechrau eich blwyddyn academaidd, mae gennych 6 mis o ddechrau'r flwyddyn academaidd i'n hysbysu ac i anfon tystiolaeth berthnasol. Byddwn yn gallu adolygu'ch cais ac ailasesu yn unol â hynny.<br><br>Os collwch y dyddiad cau 6 mis, ni allwch wneud cais am ailasesu eich dyfarniad ar gyfer y flwyddyn academaidd benodol honno. Fodd bynnag, nid yw hyn yn eich atal rhag ymgeisio ar gyfer y blynyddoedd sy'n dilyn fel myfyriwr annibynnol. |
| | | **Eisoes yn cyd-fyw cyn priodi:** |

| | | |
|---|---|---|
| | Rwy'n fyfyriwr annibynnol ac wedi priodi'n ddiweddar, sut fydd hyn yn effeithio ar fy Mwrsariaeth GIG Cymru? | Os yw'r asesiad cychwynnol wedi cynnwys incwm a threuliau eich partner oherwydd eich bod yn cyd-fyw, ni fyddai angen ailasesu eich dyfarniad bwrsariaeth sylfaenol neu unrhyw lwfansau ychwanegol rydych chi wedi gwneud cais amdanynt.<br><br>Os bydd eich amgylchiadau'n newid, e-bostiwch abm.sas@wales.nhs.uk yn amlinellu eich newid mewn amgylchiadau ochr yn ochr â'r dyddiad newid effeithiol. **Cofiwch gynnwys eich enw, eich dyddiad geni a'ch rhif Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr (SAS) yn eich e-bost.**<br><br>**Heb gyd-fyw cyn priodi**<br><br>Os cafodd yr asesiad cychwynnol ei brosesu fel un 'sengl', ac nad oeddech yn byw gyda'ch priod cyn y briodas, bydd angen ailasesu eich dyfarniad bwrsariaeth sylfaenol i ystyried incwm a threuliau eich priod. Bydd hyn yn cael ei wneud er eich bod yn byw gyda'ch gilydd nawr. Byddai eich dyfarniad sylfaenol wedyn yn gyfanswm cyfanredol eich hawl hyd at ddyddiad y briodas a byddai hawl newydd yn cael ei brofi ar incwm eich priod o ddyddiad y briodas hyd ddiwedd y flwyddyn academaidd.<br><br>Gallwch hefyd wneud cais am Lwfans Dibynnydd i'ch priod ac unrhyw blant sy'n ddibynnol arnoch chi yn ariannol.<br><br>Os bu newid i'ch amgylchiadau ers i chi gyflwyno'ch cais bwrsariaeth cychwynnol, e-bostiwch abm.sas@wales.nhs.uk gan amlinellu'r newid yn ogystal â'r dyddiad y daeth y newid i rym. **Cofiwch gynnwys eich enw, eich dyddiad geni a'ch rhif Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr (SAS) yn eich e-bost.**<br><br>Gofynnir i chi gyflwyno cais newydd trwy eich cyfrif BOSS a darparu'r dystiolaeth ategol y gofynnir amdani yn eich E-bost Tystiolaeth diwygiedig. |
| | A ellir ailasesu fy Nyfarniad Bwrsariaeth GIG Cymru os yw incwm fy Rhiant / Rhiant / Priod / Partner Sifil / Partner wedi gostwng? | Os oes gostyngiad o 15% neu fwy yn incwm y cartref, cyflwynwch eich achos i abm.sas@wales.nhs.uk i ofyn am Ffurflen CYIA. Bydd aelod o'r tîm yn ymateb i'ch cais.<br><br>Mae pob Asesiad Incwm Blwyddyn Gyfredol yn cael ei adolygu fesul achos ac nid oes unrhyw sicrwydd y gallwn ailasesu eich hawl.<br><br>Bydd unrhyw ailasesiadau yn seiliedig ar amcangyfrif incwm yn rhai dros dro ac yn destun newid unwaith y bydd tystiolaeth incwm derfynol yn cael ei darparu.<br><br>Myfyrwyr Blwyddyn Olaf: Ni fyddwn yn gallu ystyried ailasesiad nes bod tystiolaeth incwm ddogfennol derfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol ar gael. |
| | Os bydd fy Nyfarniad Bwrsariaeth GIG Cymru yn cael ei ailasesu oherwydd | Byddwn yn adolygu'r incwm a ddefnyddir yn yr asesiad cychwynnol ac yn cymharu â'r flwyddyn ariannol ddilynol (gyfredol) i benderfynu os ydych chi'n gymwys i gael Asesiad Incwm Blwyddyn Gyfredol. |

| | | |
|---|---|---|
| | gostyngiad yn incwm y cartref, pa incwm blwyddyn ariannol fydd yn cael ei ddefnyddio yn yr ailasesiad hwn? | Er enghraifft, os cyfrifwyd eich hawl bwrsariaeth gan ddefnyddio'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 5 Ebrill 2021. Dim ond am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 5 Ebrill 2022 yr ystyrir blwyddyn gyfredol.<br><br>Byddwch yn ymwybodol na fyddwn yn gallu colli blwyddyn ariannol. |
| | A oes angen ailasesu fy Nyfarniad Bwrsariaeth GIG Cymru os yw incwm fy rhiant (rhieni) / Priod / Partner Sifil / Partner wedi cynyddu? | Na, os oes cynnydd mewn incwm, ni fydd yn ofynnol i chi gyflwyno cais newydd. Bydd unrhyw gynnydd mewn incwm yn cael ei ystyried ar gyfer eich cais adnewyddu.<br><br>Os ydych chi wedi cael Asesiad Incwm Blwyddyn Gyfredol wedi'i gymeradwyo a bu cynnydd yn yr amcangyfrif o incwm a ddatganwyd, dylech gysylltu â ni ar unwaith er mwyn i ni adolygu eich dyfarniad. Bydd hyn yn atal unrhyw ordaliadau diangen. |
| | A oes angen i mi eich hysbysu o unrhyw newid yn fy incwm fy hun? | Os ydych chi'n fyfyriwr Llawn Amser, dylech ein hysbysu o unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn eich incwm **heb ei ennill** yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol fel incwm ar gyfer rent neu eiddo, pensiwn ac ati.<br><br>Os ydych chi'n fyfyriwr Rhan-Amser, dylech ein hysbysu o unrhyw newidiadau mewn incwm a enillwyd fel cyflogaeth neu hunangyflogaeth.<br><br>Gall unrhyw newidiadau effeithio ar eich dyfarniad. |
| | Pa effaith fydd ar fy Lwfans Dibynnydd os wyf i neu fy mhartner / Partner Sifil / Priod wedi cael babi? | Os byddwch chi neu'ch Partner / Partner Sifil / Priod yn rhoi genedigaeth ran o'r ffordd trwy'r Flwyddyn Academaidd, efallai y bydd gennych hawl i hawlio y lwfansau prawf modd canlynol ychwanegol:<br><br>• Lwfans Dibynnydd<br>• Lwfans Dysgu i Rieni (PLA)<br>• Lwfans Gofal Plant (CCA) - **Ddim yn berthnasol i fyfyrwyr sydd ar Absenoldeb Mamolaeth ar hyn o bryd.**<br><br>**Rwyf wedi gwneud cais eisoes am lwfansau ychwanegol**<br><br>Os ydych eisoes wedi cael eich asesu ar gyfer Lwfans Dibynnydd, gallwch wneud cais i ychwanegu eich plentyn ychwanegol at yr asesiad. Bydd gofyn i chi gyflwyno cais newydd a darparu'r dystiolaeth ychwanegol y gofynnir amdani yn eich E-bost Tystiolaeth.<br><br>Bydd eich hawl newydd i Lwfans Dibynnydd yn cael ei gyfrif o ddyddiad geni'r babi hyd at ddiwedd y Flwyddyn Academaidd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | **Heb wneud cais ychwanegol**<br>Os ydych chi'n derbyn y dyfarniad sylfaenol / lwfansau wythnosau ychwanegol yn unig ar hyn o bryd, gallwch wneud cais am Lwfans Dibynnydd ar gyfer eich plentyn newydd (a Phartner / Partner Sifil / Priod os yn berthnasol).<br>Bydd gofyn i chi gyflwyno cais newydd a darparu'r dystiolaeth ychwanegol y gofynnir amdani yn eich E-bost Tystiolaeth.<br>Bydd eich hawl i Lwfans Dibynnydd (Deps), Lwfans Dysgu i Rieni (PLA) a Lwfans Gofal Plant (CCA) yn cael ei gyfrifo o ddyddiad geni'r babi hyd at ddiwrnod olaf y flwyddyn academaidd. |
| **Tystiolaeth** | | |
| | Pa dystiolaeth sydd angen i mi ei chyflwyno gyda fy nghais? | Bydd y dystiolaeth y gofynnir amdani yn dibynnu ar eich cais.<br><br>Ar ôl i chi gyflwyno'ch cais, byddwch yn derbyn E-bost Tystiolaeth awtomataidd yn rhestru'r ddogfennaeth sy'n ofynnol er mwyn bwrw ymlaen â'ch Cais. |
| | Pam fod angen i mi anfon tystiolaeth bellach i gefnogi fy nghais? | Mewn rhai achosion, mae angen tystiolaeth bellach arnom i fwrw ymlaen â'ch Cais. Gall hyn fod oherwydd nad oes digon o dystiolaeth yn cwrdd â'r meini prawf, rhai dogfennau na chawsant eu cyflwyno neu dystiolaeth ychwanegol sy'n ofynnol oherwydd anghysondebau.<br><br>Os na allwn fwrw ymlaen â'r asesiad, byddwn yn cysylltu â chi trwy e-bost i ofyn am wybodaeth / tystiolaeth bellach. |
| | A oes unrhyw gyfyngiadau o ran y math o ddogfennau y gallwch eu derbyn i gefnogi fy nghais? | Rhaid i chi ddarparu dogfennaeth wreiddiol sy'n ddilys, yn gywir ac yn eirwir. Ni allwn dderbyn copïau.<br><br>Os ydych chi'n ansicr pa dystiolaeth i'w chyflwyno, cyfeiriwch at eich E-bost Tystiolaeth sy'n darparu gwahanol opsiynau. Os ydych chi'n cael anawsterau wrth ddarparu'r ddogfennaeth y gofynnwyd amdani, cysylltwch â'n Llinell Gymorth neu e-bostiwch abm.sas@wales.nhs.uk am gyngor pellach. |
| | Rwyf wedi derbyn e-bost yn gofyn am dystiolaeth bellach cyn y gallwch brosesu fy nghais, a fydd hyn yn effeithio ar yr amser asesu? | Ein nod yw asesu'ch cais o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl derbyn eich dogfennaeth ategol. Pe bai angen cyflwyno tystiolaeth bellach, gallai hyn achosi oedi cyn i'ch cais gael ei gymeradwyo. Ar ôl i'r dystiolaeth bellach gael ei chyflwyno, bydd eich cais yn ymuno â'r ciw asesu a'n nod yw adolygu eich cais ynghyd â'r dystiolaeth newydd o fewn 20 diwrnod gwaith arall. **Sicrhewch eich bod yn darparu'r holl dystiolaeth y gofynnwyd amdani er mwyn osgoi oedi wrth brosesu'ch cais.** Gellir gweld Llinell Amser y Bwrsariaeth yma:<br><br>Asesir eich dyfarniad bwrsariaeth ar gyfer y Flwyddyn Academaidd lawn, felly bydd unrhyw daliadau a gollwyd yn cael eu hôl-ddyddio. |

| | | |
|---|---|---|
| | Ga i ddod â'm tystiolaeth yn uniongyrchol i'ch swyddfa / swyddfa sganio? | Na - **Rhaid** postio'r holl ddogfennau ynghyd â'ch Taflen Glawr Myfyriwr i'r cyfeiriad isod. **Nid oes unrhyw eithriadau i'r rheol hon.**<br><br>**DST-NWSSP-SAS…**<br>**Tŷ Cwmbrân**<br>**Ystad Parc Mamhilad**<br>**Pont-y-pŵl**<br>**NP4 0XS**<br><br>**Cofiwch – I'r cyfeiriad hwn yn unig y dylech chi anfon eich dogfennau.**<br><br>Pan yn postio unrhyw beth atom, ysgrifennwch eich cyfeirnod SAS (gallwch gael hwn o'ch taflen glawr myfyriwr) ar linell gyntaf y cyfeiriad a'ch cyfeiriad dychwelyd dewisol ar gefn yr amlen sy'n cynnwys y dogfennau.<br><br>Wrth anfon unrhyw dystiolaeth / gohebiaeth rhaid cynnwys y canlynol:<br><br>• Taflen Glawr Myfyriwr - Gallwch gyrchu eich Taflen Glawr Myfyriwr o adran 'Ddogfennau' eich cyfrif BOSS. Mae hwn yn cynnwys eich cyfeirnod cod bar unigryw sy'n ein galluogi i ddod o hyd i'ch cofnod BOSS a chysylltu'ch dogfennau ag ef.<br>• Amlen dychwelyd hunan-gyfeiriedig wedi'i ragdalu- Mae hyn yn ein galluogi ni i ddychwelyd eich tystiolaeth atoch chi. Rydym yn argymell eich bod yn talu ar gyfer postio Signed For / Special Delivery ar yr amlen hon er mwyn olrhain dychweliad eich dogfennau. |
| | Beth yw ffurflenni P2 a P11D? | Llythyr a gyhoeddir gan CThEM yw P2 neu Hysbysiad Codio PAYE i gadarnhau sut mae cod treth a lwfans treth personol yn cael ei gyfrifo. Mae P11D yn adroddiad a gyhoeddir gan y cyflogwr i gadarnhau lwfansau trethadwy (h.y. car cwmni, yswiriant meddygol preifat ac ati) a dderbynnir o fewn y flwyddyn ariannol. Bydd yn ddibynnol ar y codau treth a beth sydd wedi'i nodi ar y cais p'un ai bod angen y dystiolaeth hon. Bydd yr E-bost Tystiolaeth yn gofyn am ddogfennaeth ategol lle mae ffigwr wedi'i nodi o dan y lwfans trethadwy neu flwch Tanysgrifio Proffesiynol y cais. |
| | Nid oes gennyf dystysgrif Geni oherwydd ces i fy mabwysiadu, a fydd hi'n iawn i mi ddarparu Tystysgrif Mabwysiadu? | Bydd, gallwch gyflwyno'ch Tystysgrif Mabwysiadu fel tystiolaeth; ochr yn ochr â'ch Pasbort neu Drwydded Yrru. |
| | Rwyf wedi derbyn fy E-bost Tystiolaeth; fodd bynnag, ni alla | Os ydych chi'n cael anawsterau i ddarparu'r ddogfennaeth y gofynnwyd amdani, cysylltwch â'n Llinell Gymorth neu e-bostiwch abm.sas@wales.nhs.uk am gyngor pellach. |

| | | |
|---|---|---|
| | i gasglu'r holl ddogfennau sy'n ofynnol, beth alla i wneud? | |
| | Pa dystiolaeth galla i anfon i brofi fy mod wedi<br>gwahanu oddi wrth Briod / Partner Sifil /<br>Partner? | Gellir gofyn am y dystiolaeth ganlynol i brofi eich bod chi neu'ch rhiant yn sengl:<br><br>• Bil y Dreth Gyngor sy'n dangos yn glir eithriad llawn myfyrwyr neu ddeiliadaeth sengl.<br><br>• Hysbysiad Dyfarniad Credydau Treth / llythyr Credyd Cynhwysol yn dangos eich bod chi / eich rhiant yn derbyn tâl fel person sengl.<br><br>• Llythyr gan berson proffesiynol sy'n gallu gwirio'r amgylchiadau yn annibynnol, fel cyfreithiwr. Dylai'r llythyr gynnwys enw, cyfeiriad a rhif ffôn / cyfeiriad e-bost y person proffesiynol<br><br>**Bydd methiant i ddarparu'r dystiolaeth berthnasol yn arwain at oedi cyn asesu'ch cais.** |
| | Rwy'n fyfyriwr annibynnol a oedd yn briod neu a oedd â Phartner / Partner Sifil ar ddechrau'r Flwyddyn Academaidd. Rydym bellach wedi gwahanu ond rydym yn dal i fyw yn yr un cartref. Sut bydd hyn yn effeithio ar fy mwrsariaeth? | Bydd angen i chi ddarparu llythyr gan berson proffesiynol, yn ddelfrydol dylai hwn fod yn gyfreithiwr. Dylai'r llythyr gadarnhau eich bod yn rhannu tŷ oherwydd rhesymau ariannol a'ch bod chi a'ch cyn briod neu bartner yn byw bywydau cwbl ar wahân. **Os na allwch ddangos eich bod yn annibynnol yn ariannol ar eich cyn briod neu bartner, yna bydd eich bwrsariaeth yn dal i gael ei hasesu gan ddefnyddio incwm eich priod neu'ch partner.**<br><br>**Ar gyfer Lwfans Dibynnydd:**<br><br>Os ydych chi'n derbyn Lwfans Dibynnydd a / neu Lwfans Gofal Plant cyn gwahanu, bydd angen ailasesu'r lwfansau ychwanegol hyn.<br><br>Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth mai chi yw'r rhiant sy'n bennaf gyfrifol am gynnal yn ariannol unrhyw blant oherwydd i bob pwrpas byddant yn dal i fod yn preswylio gyda'r ddau riant. Byddai angen i hyn fod ar ffurf cytundeb cyfreithiol yn nodi mai chi sy'n gyfrifol am y plant.<br><br>Os oeddech chi'n hawlio Lwfans Dibynnydd ar gyfer eich priod neu'ch partner yn unig, bydd hwn yn cael ei atal o'r dyddiad gwahanu.<br><br>Os nad oeddech yn derbyn Lwfansau Dibynnydd yn flaenorol oherwydd incwm eich partner, efallai y byddwch bellach yn gymwys ar gyfer hyn os oes gennych blant sy'n ddibynnol yn ariannol arnoch chi. Bydd y Lwfans Dibynnydd yn cael ei ailasesu o ddyddiad y gwahanu. |

| | | |
|---|---|---|
| | Pa dystiolaeth galla i anfon i brofi fy mod wedi<br>unrhyw absenoldeb dros dro o'r DU? | Os ydych chi wedi bod yn absennol dros dro neu yn achlysurol o'r DU o fewn y 3 blynedd cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf, efallai y gofynnir ichi ddarparu'r dystiolaeth ganlynol:<br><br>• Eich Trwydded Fisa / Preswyl dros dro sy'n dangos yn glir y dyddiad dod i ben ar gyfer eich amser tramor.<br>• Eich contract (au) cyflogaeth wrth breswylio dramor, gan ddangos ei fod dros dro.<br>• Eich contract Rhiant / rhieni [Os yw'n ddibynnol] contract cyflogaeth (au) tra'n preswylio dramor, gan ddangos ei fod dros dro.<br>• Mae tystiolaeth eich bod wedi cynnal cartref yn y DU tra eich bod tramor h.y. Bil y Dreth Gyngor am y 3 blynedd diwethaf<br>• Tystiolaeth o gysylltiadau parhaus â'r DU, megis prawf atebolrwydd am dreth y DU, taliadau morgais parhaus neu ymweliadau rheolaidd â'r DU.<br><br>Byddwch yn ymwybodol Os na allwch ddarparu tystiolaeth i ddangos bod eich amser i ffwrdd o'r DU dros dro, ni fyddwch yn gymwys ar gyfer Bwrsariaeth GIG Cymru a gwrthodir eich cais. |
| | Pa dystiolaeth galla i anfon i brofi fy mod wedi<br>enillion cyflogaeth (enillion<br>cyflogedig)? | Gellir derbyn bod unrhyw un o'r mathau canlynol o dystiolaeth yn profi<br>enillion cyflogedig:<br><br>• P60 Tystysgrif Enillion<br>• Slip cyflog Mawrth (wythnos 52/53 neu fis 12) yn dangos y ffigwr hyd yn hyn.<br>• Llythyr gan eich cyflogwr i gadarnhau. Rhaid i'r llythyr hwn gynnwys yr un wybodaeth â geir ar P60 neu slip cyflog.<br>• Hanes Gwaith CThEM Gellir cysylltu gyda CThEM trwy ffonio 0300 2003300. **Sylwer: mae Hanes Gwaith CThEM yn ddogfen wahanol i'r Hysbysiad Dyfarniad Credydau Treth / Datganiad Credyd Cynhwysol. Ni allwn dderbyn Hysbysiad Dyfarniad Credydau Treth / llythyr Credyd Cynhwysol fel prawf incwm.**<br>• Ffurflen CP - Tystysgrif Incwm o Gyflogaeth y gellir ei lawrlwytho yma Ffurflenni - Partneriaeth Cydwasanaeth GIG Cymru<br>• Crynodeb treth blynyddol CThEM.<br>• P45 (Dim ond ar gyfer enillion y gyflogaeth benodol honno y bydd hyn yn dderbyniol, bydd angen darparu unrhyw incwm trethadwy arall.<br><br>Bydd methiant i ddarparu unrhyw dystiolaeth berthnasol yn arwain at<br>oedi cyn asesu eich cais. |
| | Pa dystiolaeth galla i anfon i brofi fy mod wedi<br>cyfraniadau pensiwn gweithiwr? | Gellir derbyn unrhyw un o'r mathau canlynol o dystiolaeth i brofi cyfraniadau pensiwn gweithwyr:<br><br>• Slip cyflog Mawrth (wythnos 52/53 neu fis 12) yn dangos y ffigwr hyd yn hyn. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Llythyr gan eich cyflogwr i gadarnhau. Rhaid i'r llythyr hwn gynnwys yr un wybodaeth â geir ar P60 neu slip cyflog.<br>• Ffurflen CP - Tystysgrif Incwm o Gyflogaeth y gellir ei lawrlwytho yma [Ffurflenni - Partneriaeth Cydwasanaaethau GIG Cymru]()<br><br>Os ydych chi'n darparu'ch P60 fel tystiolaeth o incwm o gyflogaeth, bydd hyn yn dangos eich tâl trethadwy hyd yma ar ôl didynnu cyfraniadau pensiwn gweithwyr. |
| | A oes angen i mi ddatgan 'Lwfans Gofalwr Maeth' a pha dystiolaeth sy'n ofynnol? | Oes - Bydd angen i chi ddatgan Lwfans Gofalwr Maeth ar eich Cais fel incwm hunangyflogaeth. Bydd gofyn i chi ddarparu tystiolaeth fel: -<br>- Datganiad Ariannol y Gofalwr i gynnwys manylion enw a dyddiad geni'r plentyn, nifer y diwrnodau o ofal maeth, cyfanswm yr elfennau nad ydynt yn drethadwy ac sydd yn drethadwy ynghyd â chyfanswm yr holl daliadau a dderbyniwyd.<br>- Datganiad CThEM yn dangos elfen drethadwy y Lwfans Gofalwr Maeth<br>- Ffurflen Dreth Hunanasesu CThEM diweddaraf<br>- Crynodeb Cyfrifiad Treth / Cyfrifiad Diweddaraf<br><br>Bydd methiant i ddarparu unrhyw dystiolaeth berthnasol yn arwain at<br>oedi cyn asesu eich cais. |
| | Pa dystiolaeth y gallaf ei hanfon i brofi incwm Hunangyflogaeth / Cyfarwyddiaeth Cwmni? | Gellir derbyn unrhyw un o'r mathau canlynol o dystiolaeth i brofi incwm Hunangyflogaeth / Cyfarwyddiaeth Cwmni:<br><br>• Ffurflen Dreth Hunanasesu CThEM Bydd angen i hyn ddangos fel y'i cyflwynwyd.<br>• Cyfrifiad Treth Hunanasesu CThEM. Bydd angen i hyn ddangos bod 100% wedi'i gwblhau a'i gyflwyno.<br>• Ffurflen SA - Datganiad Incwm Hunanasesu y gellir ei lawrlwytho yma [Ffurflenni - Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ]()**Os nad ydych yn cyflogi Cyfrifydd, bydd gofyn i chi hefyd ddarparu'ch Ffurflen Dreth Hunanasesu neu Gyfrifiad Treth i gefnogi'r ffurflen.**<br>• Llythyr gan Gyfrifydd i gadarnhau'r incwm trethadwy a dderbyniwyd. **Rhaid i'r Cyfrifydd lofnodi a dyddio'r llythyr hwn a rhaid iddo fod ar bapur pennawd llythyr.**<br>• Datganiad Cyfrifon<br><br>Bydd methiant i ddarparu unrhyw dystiolaeth berthnasol yn arwain at<br>oedi cyn asesu eich cais. |
| | Pa dystiolaeth y gallaf ei hanfon i brofi incwm o Dir, | Gellir derbyn unrhyw un o'r mathau canlynol o dystiolaeth i brofi incwm o Dir, Eiddo neu osodiadau wedi'u Dodrefnu: |

| | | |
|---|---|---|
| | Eiddo neu osodiadau wedi'u Dodrefnu? | • Ffurflen Dreth Hunanasesu CThEM Bydd angen i hyn ddangos fel y'i cyflwynwyd.<br>• Cyfrifiad Treth Hunanasesu CThEM. Bydd angen i hyn ddangos bod 100% wedi'i gwblhau a'i gyflwyno.<br>• Ffurflen SA - Datganiad Incwm Hunanasesu y gellir ei lawrlwytho yma Ffurflenni - Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru **Os nad ydych yn cyflogi Cyfrifydd, bydd gofyn i chi hefyd ddarparu'ch Ffurflen Dreth Hunanasesu neu Gyfrifiad Treth i gefnogi'r ffurflen.**<br>• Llythyr gan Gyfrifydd i gadarnhau'r incwm trethadwy a dderbyniwyd. **Rhaid i'r Cyfrifydd lofnodi a dyddio'r llythyr hwn a rhaid iddo fod ar bapur pennawd llythyr.**<br><br>Os nad yw Ffurflen Dreth y flwyddyn ariannol ddiweddaraf ar gael eto yna efallai y byddwn yn gallu derbyn y flwyddyn ariannol flaenorol ynghyd â llythyr eglurhad wedi'i lofnodi.<br><br>Bydd methiant i ddarparu unrhyw dystiolaeth berthnasol yn arwain at<br>oedi cyn asesu eich cais. |
| | Pa dystiolaeth y gallaf ei hanfon i brofi incwm o Bensiynau? | Gellir derbyn unrhyw un o'r mathau canlynol o dystiolaeth i brofi incwm o Bensiynau:<br><br>• P60 Tystysgrif Enillion y Pensiwn.<br>• Slip cyflog Mawrth (wythnos 52/53 neu fis 12) yn dangos y ffigwr hyd yn hyn.<br>• Llythyr gan y Gwasanaeth Pensiwn yn cadarnhau Pensiwn y Wladwriaeth<br>• Adroddiad Pensiwn<br><br>Bydd methiant i ddarparu unrhyw dystiolaeth berthnasol yn arwain at<br>oedi cyn asesu eich cais. |
| | Pa dystiolaeth y gallaf ei hanfon i brofi incwm o lwfansau trethadwy? | Os ydy’ch Rhiant / Rhieni / Priod / Partner Sifil / Partner yn derbyn incwm o lwfansau trethadwy (er enghraifft taliadau car cwmni, costau teithio, yswiriant meddygol ac ati) gellir derbyn unrhyw un o'r canlynol fel tystiolaeth:<br><br>• P2 / P11D<br>• Ffurflen Dreth Hunanasesu Diweddaraf<br><br>Bydd methiant i ddarparu unrhyw dystiolaeth berthnasol yn arwain at<br>oedi cyn asesu eich cais. |
| | Pa dystiolaeth y gallaf ei hanfon i brofi incwm o fuddion trethadwy? | Er mwyn profi incwm o fuddion trethadwy i'ch rhiant (rhieni) / priod / partner / partner sifil ar gyfer y flwyddyn dreth berthnasol gallwn dderbyn unrhyw un o'r canlynol: |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Llythyr / datganiad gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) / Canolfan Byd Gwaith yn dangos naill ai'r cyfanswm a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ariannol berthnasol neu faint a dalwyd yn wythnosol yn ystod y cyfnod hwnnw<br>• P60 / P60U<br>• P45 / P45U<br>• Ffurflen BA - Tystysgrif Incwm o Fudd-daliadau y gellir ei lawrlwytho yma: Ffurflenni - Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru<br><br>Bydd methiant i ddarparu unrhyw dystiolaeth berthnasol yn arwain at<br>oedi cyn asesu eich cais. |
| | Pa dystiolaeth y gallaf ei hanfon i brofi premiymau Yswiriant Bywyd? | Gellir derbyn y dystiolaeth ganlynol i brofi premiymau Yswiriant Bywyd:<br><br>• Polisi Yswiriant Bywyd<br>• Datganiad Yswiriant Bywyd<br>• Llythyr gan eich Darparwr Yswiriant Bywyd<br><br>Bydd methiant i ddarparu unrhyw dystiolaeth berthnasol yn arwain at<br>oedi cyn asesu eich cais. |
| | Pa dystiolaeth galla i anfon i brofi fy mod wedi<br>taliadau morgais? | Gellir derbyn y dystiolaeth ganlynol i brofi<br>taliadau morgais<br><br>• Datganiad Morgais<br>• Llythyr gan eich Darparwr Morgais |
| | Pa dystiolaeth galla i anfon i brofi fy mod wedi<br>cyfraniadau pensiwn personol | Gellir derbyn bod unrhyw un o'r mathau canlynol o dystiolaeth yn profi<br>cyfraniadau pensiwn personol:<br><br>• Llythyr gan y Cwmni Pensiwn<br>• Adroddiad gan y Cwmni Pensiwn<br>• Ffurflen PC - Tystysgrif Cyfraniadau Pensiwn Personol wedi'i lawrlwytho yma: Ffurflenni - Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru<br><br>Rhaid i gyfraniadau pensiwn ar gyfer pensiynau preifat bob amser ddangos rhyddhad treth ar y dystiolaeth a ddarperir i ni er mwyn i ni eu cynnwys fel costau. |
| | Pa dystiolaeth galla i anfon i brofi fy mod wedi<br>tanysgrifiadau proffesiynol neu | Os ydy'ch rhiant (rhieni) / priod / partner sifil / partner yn talu tanysgrifiadau proffesiynol neu os oes ganddynt dreuliau eraill sy'n denu rhyddhad treth, gellir derbyn unrhyw un o'r canlynol fel tystiolaeth: |

| | | |
|---|---|---|
| | dreuliau eraill sy'n denu rhyddhad treth? | • Hysbysiad Codio PAYE - Ffurflen P2<br>• Ffurflen Dreth Hunanasesu<br>• Cyfrifo / Cyfrifiant Treth Personol |
| | Pa dystiolaeth y gallaf ei hanfon i brofi taliadau rhent? | Gellir derbyn bod unrhyw un o'r mathau canlynol o dystiolaeth yn profi<br>Taliadau rhent:<br><br>• Cytundeb Tenantiaeth<br>• Adroddiad rent Rhaid i'r cyfriflen hon fod ar bapur pennawd<br>• Llythyr gan eich Landlord yn cadarnhau taliadau. Rhaid i'r llythyr hwn gael ei lofnodi, ei ddyddio a'i gyhoeddi ar bapur pennawd llythyr<br><br>Byddwch yn ymwybodol: ni allwn dderbyn cytundebau anffurfiol fel costau rhent a delir i aelod o'r teulu. |
| | Pa dystiolaeth y gallaf ei hanfon i ddangos fy mod wedi cynnal fy hun o ganlyniad i fy enillion am o leiaf 36 mis? | Dylai'r dystiolaeth a ddarperir gennych fod yn gyfuniad (lle bo hynny'n bosibl) o wahanol fathau o ddogfennau sy'n cwmpasu cyfanswm cyfanredol o 36 mis a gall gynnwys y canlynol:<br><br>• P60(au)<br>• P45(au)<br>• Slip (iau) Talu Terfynol (Mawrth - Wythnos 52 neu Fis 12). Fel arall, anfonwch y slip (iau) cyflog perthnasol ar gyfer y cyfnod cyflogaeth penodol hwnnw<br>• Llythyr gan eich Cyflogwr. Rhaid i hwn fod ar bapur pennawd a chynnwys y cyfnod cyflogaeth, cadarnhad o statws llawn amser neu ran amser, enillion blynyddol, oriau dan gontract a chyfradd tâl<br>• Ffurflenni Treth Hunan-asesu / Cyfrifiadau Treth<br>• Hanes Gwaith CThEM Gellir cysylltu gyda CThEM trwy ffonio 0300 2003300.<br>• Tystiolaeth o Fudd-daliadau h.y. llythyrau budd-dal neu P60U. Rhaid cadarnhau cyfnodau lle'r oedd gennych hawl i fudd-daliadau.<br><br>Nid yw 'enillion' yn cynnwys benthyciadau a grantiau myfyrwyr nac unrhyw fath arall o ddyfarniad statudol.<br><br>Mae cyfnodau o hunangynhaliaeth yn cynnwys y rhai sydd mewn cyflogaeth llawn amser neu tra'n hawlio budd-dal (iadau) ***ond nid yn cynnwys cyfnodau tra'n ymgymryd ag addysg llawn amser.***<br><br>Rhaid i'r holl dystiolaeth a ddarperir gael ei dyddio cyn dechrau diwrnod cyntaf eich blwyddyn academaidd gyntaf.<br><br>Bydd methiant i ddarparu'r dystiolaeth berthnasol yn arwain at oedi cyn asesu'ch cais. |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| | Pa dystiolaeth y gallaf ei hanfon i brofi fy mod yn fyfyriwr annibynnol oherwydd fy mod mewn gofal? | Efallai y cewch eich ystyried yn fyfyriwr annibynnol os oeddech yng ngofal awdurdod lleol neu sefydliad gwirfoddol, neu os oeddech o dan orchymyn gwarcheidiaeth ar eich pen-blwydd yn 18 oed neu'n union cyn eich cwrs os nad ydych yn 18 oed pan fydd yn dechrau. I brofi hyn, bydd angen;<br><br>• Unrhyw ddogfen neu lythyr perthnasol gan weithiwr cymdeithasol Awdurdod Lleol, gweithiwr cymorth neu sefydliad gwirfoddol yn cadarnhau dyddiadau ac ati, neu;<br>• Ddogfennaeth gan y llysoedd neu'r cyfreithiwr ynglŷn â’r gorchymyn gofal |
| | Pa dystiolaeth y gallaf ei hanfon i brofi fy mod yn rhan o urdd grefyddol? | Dylech ddarparu dogfen gan yr urdd grefyddol yn cadarnhau eich aelodaeth a'ch preswylfa yn nhŷ'r urdd. |
| | Pa dystiolaeth y gallaf ei hanfon i brofi fy mod yn fyfyriwr annibynnol oherwydd bod fy nau riant wedi marw? | Er mwyn profi eich bod yn annibynnol bydd angen i chi anfon tystysgrifau marwolaeth<br>y ddau ohonyn nhw. Os nad ydy’r rhain gyda chi ac mae eich rhiant (rhieni) wedi marw<br>yn y DU bydd angen i chi gael copïau dyblyg i'w hanfon.<br><br>Os bu farw eich rhiant / rhieni y tu allan i'r DU, anfonwch unrhyw ddogfen swyddogol sydd gennych sy'n cadarnhau bod eich rhiant / rhieni wedi marw dramor.<br><br>Os nad oes gennych unrhyw ddogfennaeth swyddogol, darparwch lythyr eglurhaol yn rhoi gwybod am y rheswm na allwch gael gafael ar ddogfen swyddogol a llythyr wedi'i lofnodi gan un o'r canlynol;<br><br>• Swyddog consylaidd - rhywun sy'n gweithio i Lysgenhadaeth neu Gonswl, naill ai'n cael ei gyflogi gan lywodraeth y DU neu lywodraeth gwlad arall<br>• Gweinidog crefydd - fel Rabi, Offeiriad neu Imam<br>• Meddyg neu gyfreithiwr - rhywun sydd wedi cofrestru ar hyn o bryd gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) fel meddyg teulu neu ymgynghorydd<br>• Gwas sifil sefydledig - rhywun sy'n cael ei gyflogi gan y Goron (ac eithrio'r rhai a gyflogir gan y Frenhines ei hun) sydd wedi pasio unrhyw gyfnod prawf gorfodol ar gyfer gweithwyr newydd y Gwasanaeth Sifil<br>• Athro - rhywun sydd â chymhwyster addysgu ac sy'n gweithio fel athro ar hyn o bryd<br>• Swyddog heddlu - fel rhywun sy'n gweithio i’r heddlu yn y DU<br>• ar hyn o bryd. Dylai'r llythyr roi manylion y sefyllfa a chynnwys teitl swydd yr unigolyn, ei gyflogwr, ei fanylion cyswllt, ei berthynas â chi a chael ei ysgrifennu ar bapur pennawd os yn berthnasol. |
| | Beth yw'r meini prawf ar gyfer ymddieithrio a pha dystiolaeth y gallaf | Mae ein Rheoliadau ond yn caniatáu i fyfyriwr gael ei ddosbarthu fel myfyriwr annibynnol, h.y. heb fod yn ddibynnol ar ei riant (rhieni), mewn rhai amgylchiadau eithriadol ar sail ymddieithrio anghymodlon. Bydd myfyriwr yn cael ei ystyried wedi’i ymddieithrio |

| | | |
|---|---|---|
| | ei hanfon i brofi fy mod wedi ymddieithrio oddi wrth fy rhiant / rhieni? | yn anghymodlon oddi wrth ei riant / rieni os nad yw wedi cyfathrebu ag un o'r ddau ohonynt am gyfnod o 12 mis o leiaf. Cyfrifoldeb y myfyriwr yw darparu tystiolaeth gadarn a dibynadwy sy'n cadarnhau'r ymddieithrio a'r rhesymau dros hyn.<br><br>Wrth edrych ar ymddieithrio nid yw'n ddigon nad yw myfyriwr yn cyd-dynnu gyda'i riant (rhieni) neu y gallent fod wedi cael rhyw fath o ddadl neu anghytundeb yn ddiweddar. Hefyd, nid yw'r ffaith y gall myfyriwr ddewis byw ar wahân i'w riant / rieni yn dystiolaeth ddigonol o ymddieithrio. Ar ben hynny, ni ellir hawlio ymddieithrio am fod rhiant yn gwrthod cydweithio wrth asesu grant y myfyriwr, e.e. trwy wrthod llenwi'r ffurflenni cais, neu am fod rhiant yn methu â darparu cymorth ariannol.<br><br>Os ydych chi'n teimlo, yng ngoleuni'r uchod, y gallech fod yn gymwys i gael statws annibynnol oherwydd ymddieithrio anghymodlon gan eich rhiant (rhieni), bydd angen i chi ddarparu'r canlynol: -<br><br>• Llythyr wedi'i lofnodi i gynnwys crynodeb o'ch amgylchiadau.<br>• Byddwn hefyd yn gofyn am dystiolaeth ysgrifenedig gan ryw gorff allanol, person neu awdurdod i gadarnhau eich cais. Dylai'r person annibynnol hwn fod wedi'ch adnabod chi a'ch amgylchiadau am gyfnod sylweddol o amser, ond rhaid iddo beidio â bod yn berthynas neu'n ffrind agos i'r teulu. Dylai'r llythyr neu'r datganiad fod ar bapur pennawd a chynnwys y wybodaeth ganlynol am yr unigolyn annibynnol; -<br>• Eu henw llawn<br>• Teitl eu swydd<br>• Eu manylion cyswllt<br>• Sut mae nhw yn eich adnabod chi<br>• Am faint mae nhw wedi eich adnabod chi<br>• Am ba mor hir rydych chi wedi ymddieithrio oddi wrth eich rhieni ac am ba mor hir mae nhw wedi bod yn ymwybodol o'r amgylchiadau ymddieithrio<br><br>Os yw'n bwnc sensitif lle nad oes unrhyw gyrff allanol wedi bod yn gysylltiedig, gellir ystyried llythyr gan aelod o'r teulu. Dylai hyn gynnwys eu manylion cyswllt a beth yw eu perthynas â chi, a chadarnhau hefyd nad oes unrhyw drydydd partïon allanol yn ymwybodol o'ch amgylchiadau.<br><br>Efallai yr hoffech chi hefyd ddarparu datganiad eilaidd gan berthynas neu ffrind sydd hefyd yn ymwybodol o'ch amgylchiadau.<br><br>Bydd yr holl wybodaeth a ddarperir yn cael ei thrin yn hollol gyfrinachol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Bydd methiant i ddarparu’r dystiolaeth berthnasol yn arwain at oedi cyn asesu'ch cais. |
| | Pa dystiolaeth y gallaf ei hanfon i brofi fy mod yn breswylydd fel arfer yn y DU? | Os ydych yn Ddinesydd y tu allan i'r DU ac rydym wedi gofyn i chi ddangos eich bod yn breswylydd fel arfer yn y DU am dair blynedd cyn dechrau ar eich cwrs, gellir derbyn y dogfennau canlynol:<br><br>• Biliau cyfleustodau;<br>• Biliau y Dreth Gyngor<br>• Cytundeb(au) Tenantiaeth<br>• Datganiad Morgais<br>• Cyfriflenni yn dangos eich gweithgareddau arferol Cyfeiriad y DU (tynnu arian / credydau ac ati)<br>• Slipiau cyflog<br>• P60<br>• Llythyr gan Gyflogwr yn cadarnhau cyfeiriad myfyriwr yn y DU a chyfnodau cyflogaeth. Dylai'r llythyr hwn gael ei gyhoeddi ar bapur pennawd llythyr.<br>• Llythyr gan Sefydliad Addysg h.y. Ysgol neu Goleg yn cadarnhau cyfeiriad myfyriwr yn y DU a chyfnodau cofrestru. Dylai'r llythyr hwn gael ei gyhoeddi ar bapur pennawd llythyr.<br>• Gellir adolygu unrhyw ddogfennaeth arall sy'n cadarnhau eich cyfnod cyfeiriad yn y DU gan gynnwys dyddiad ei gyhoeddi wrth asesu.<br><br>Rhaid i'r holl dystiolaeth fod yn wreiddiol; gall methiant i ddarparu unrhyw ran o'r dystiolaeth berthnasol arwain at oedi cyn asesu eich cais. |
| | Rwy'n fyfyriwr yr UE. Pa dystiolaeth sydd angen i mi ei hanfon i ddangos bod gen i statws preswylydd sefydlog yn y DU? | Os ydych chi'n fyfyriwr yn yr UE ac wedi byw yn y DU am 3 blynedd cyn dechrau ar eich cwrs, bydd gofyn i chi ddarparu'r canlynol: -<br><br>• Pasport yr UE<br>• Tystysgrif Geni<br>• Llythyr gan y Swyddfa Gartref i gadarnhau eich statws preswylydd sefydlog<br>• Tystiolaeth o breswylio yn y DU am 3 blynedd cyn dechrau ar eich cwrs. |
| | Rwy'n fyfyriwr y tu allan i'r DU. Pa dystiolaeth sydd angen i mi ei darparu i brofi fy statws preswylydd sefydlog yn y DU? | Os ydych chi'n fyfyriwr y tu allan i'r DU ac wedi byw yn y DU am 3 blynedd cyn dechrau ar eich cwrs, bydd gofyn i chi ddarparu'r canlynol: -<br><br>• Eich Pasbort<br>• Tystysgrif Geni<br>• Visa Dilys y DU (Cerdyn Biometrig a Thrwydded Breswylio)<br>• Llythyrau gan y Swyddog Cartref yn cadarnhau'r setliad<br>• Tystiolaeth o breswylio yn y DU am 3 blynedd cyn dechrau ar eich cwrs. |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| | A wnewch chi dderbyn slipiau cyflog a P60 ar-lein? | Os ydy'ch cyflogwr yn cyhoeddi P60 neu slipiau cyflog electronig, gallwn dderbyn copïau wedi eu hargraffu.<br><br>Anfonwch lythyr eglurhaol i egluro bod y P60 neu'r slipiau cyflog ar gael ar-lein yn unig, ynghyd â chopi wedi ei argraffu o'r P60 neu'r slip cyflog. |
| | Pa dystiolaeth sydd angen i mi ei hanfon os oes rhywun arall o fewn fy nghais yn fyfyriwr? | Bydd y dystiolaeth sy'n ofynnol yn dibynnu ar y rheswm y mae nhw wedi'i ddatgan ar eich cais BOSS.<br><br>**Enwyd fel Person 1 neu 2 ar gyfer yr adran Dyfarniad Sylfaenol**<br><br>Bydd angen tystiolaeth arnom i ddangos eu bod yn fyfyriwr yn y flwyddyn ariannol flaenorol hefyd ar gyfer yr un Flwyddyn Academaidd rydych chi'n gwneud cais amdani. (os yn berthnasol).<br><br>Os oeddent mewn Addysg Uwch yn derbyn cyllid o'r fath fel Cyllid Myfyrwyr, bydd angen eu Llythyr Dyfarnu (yn dangos bod y dyfarniad wedi'i asesu yn seiliedig ar incwm).<br><br>Os nad oedden nhw yn derbyn cyllid, byddai angen llythyr arnom gan y Sefydliad Addysg Uwch (HEI) neu'r Coleg yn cadarnhau cofrestriad. Bydd angen llythyr gyda eu derbynebau / anfonebau Prifysgol a Ffi Dysgu yn dangos eu bod wedi hunan-gyllido.<br><br>Os caiff eich ddau riant eu datgan ar y cais a bod un ohonynt yn derbyn cyllid wedi'i asesu ar incwm ar gyfer cwrs addysg uwch, dylech hefyd anfon eu hysbysiad dyfarniad blwyddyn academaidd gyfredol. Rhaid i hyn gwmpasu'r un flwyddyn academaidd â'ch cais chithau.<br><br>Os derbyniwyd unrhyw incwm trethadwy er enghraifft, cyflogaeth ran amser, bydd angen datgan hyn hefyd ar y cais a darparu tystiolaeth.<br><br>**Wedi'i enwi fel Plentyn Dibynnol Arall ar Berson 1 neu 2**<br><br>Os ydy'r plentyn dibynnol arall a gofnodwyd ar y cais mewn Addysg Bellach, bydd angen un o'r canlynol arnom:<br><br>• Llythyr gan y Sefydliad Addysg Bellach yn cadarnhau cofrestriad neu bresenoldeb ar gyfer y flwyddyn academaidd berthnasol<br>• Llythyr Budd-dal Plant yn dangos taliadau budd-dal plant<br><br>Os oes dibynnydd arall mewn Addysg Uwch yn ystod yr un Flwyddyn Academaidd, bydd angen y canlynol arnom:<br><br>• Llythyr Dyfarniad Cyllid Myfyrwyr (yn dangos bod y dyfarniad wedi'i asesu yn seiliedig ar incwm) ar gyfer yr un Flwyddyn Academaidd â'ch cais chithau.<br>• Os ydych hefyd yn derbyn bwrsariaeth trwy GIG Cymru, rhowch naill ai gopi o'u Hysbysiad Dyfarniad diweddaraf neu |

| | | |
|---|---|---|
| | | Lythyr yn cadarnhau manylion yr unigolyn - Enw, Rhif Cyfeirnod SAS BOSS, Cwrs, Prifysgol, Carfan a Dyddiad Geni.<br><br>**Byddwn hefyd angen Tystysgrif Geni ar gyfer unrhyw blentyn dibynnol a gofnodir ar y cais.**<br><br>**Enwyd yn yr adran Lwfans Dibynnydd:**<br><br>**Eich plentyn**<br><br>Os ydy'ch dibynnydd mewn addysg bellach, bydd angen y canlynol:<br><br>• Tystysgrif Geni Fersiwn Hir<br>• Llythyr gan y Sefydliad Addysg Bellach yn cadarnhau cofrestriad neu bresenoldeb ar gyfer y flwyddyn academaidd berthnasol<br>• Llythyr Budd-dal Plant yn dangos taliadau budd-dal plant<br>• Hysbysiad Dyfarnu Credyd Cynhwysol / Credydau Treth<br><br>**Eich priod / partner sifil / partner**<br><br>Os ydy'ch priod / partner sifil / partner yn derbyn cyllid cyhoeddus, bydd angen eu hysbysiad dyfarnu arnom. Rhaid i hyn ddangos yn glir dadansoddiad yr elfennau sy'n rhan o'r dyfarniad a rhaid iddo gwmpasu'r un flwyddyn academaidd ac i chi'n gwneud cais amdani.<br><br>Os nad ydy'ch priod / partner sifil / partner yn derbyn unrhyw arian cyhoeddus, bydd angen un o'r canlynol arnom:<br><br>• Llythyr wedi'i lofnodi gan eu corff cyllido yn dangos eu bod yn anghymwys i gael cyllid.<br>• Llythyr wedi'i lofnodi gan y Coleg, y Chweched Dosbarth neu'r Brifysgol yn cadarnhau nad oes cyllid ar gael.<br>• Pe byddent yn dewis peidio â gwneud cais am arian cyhoeddus, byddai angen llythyr, derbynebau / anfonebau Ffioedd Dysgu gan eu prifysgol yn dangos eu bod wedi hunangyllido. |
| | Pa dystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer plant dibynnol eraill fy rhiant (rhieni) neu bartner? | Mae angen un o'r ffurflenni adnabod canlynol arnom:<br><br>• Tystysgrif Geni<br><br>Os nad oes Tystysgrif Geni ar gael, gallwn dderbyn y canlynol: -<br>• Pasbort<br>• Trwydded Yrru<br>• Tystysgrif Mabwysiadu<br><br>Os yw'r dibynnydd mewn addysg bellach, mae angen un o'r canlynol yn ogystal â'r ffurflenni adnabod:<br><br>• Llythyr gan y sefydliad addysg bellach yn cadarnhau presenoldeb neu gynnig lle (6ed dosbarth / coleg).<br>• Llythyr Budd-dal Plant cyfredol yn cadarnhau taliadau parhaus i'r flwyddyn academaidd briodol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Llythyr Credyd Treth Plant neu Gredyd Cynhwysol cyfredol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol.<br><br>Os yw'r dibynnydd mewn addysg uwch, mae angen y canlynol yn lle ffurflen adnabod:<br><br>• Llythyr dyfarniad Cwmni Benthyciad Myfyrwyr / Cyllid Myfyrwyr. |
| | Pa dystiolaeth sy'n ofynnol i hawlio Lwfans Dibynnydd? | Mae angen y dystiolaeth ganlynol os ydych am hawlio Lwfans Dibynnydd:<br><br>• Prawf o'r holl incwm a threuliau a ddatganwyd yn adran Lwfans Dibynnydd eich cais.<br>• Y dystysgrif (au) geni fersiwn hir (sy'n cynnwys manylion y rhiant / rhieni) ar gyfer pob plentyn dibynnol yr ydych yn dymuno hawlio amdanynt.<br>• Un math o ID ar gyfer eich priod / partner sifil / partner (os yn berthnasol). Yn ddelfrydol, dylai hyn fod yn Dystysgrif Geni, Pasbort neu Drwydded Yrru. Os ydy'ch partner yn ddinesydd y tu allan i'r DU / UE, rydym hefyd angen eu pasbort, llythyr gan y Swyddfa Gartref a Fisa Dilys y DU.<br>• Llythyr Budd-dal Plant cyfredol<br>• Hysbysiad Dyfarniadau Credydau Treth / llythyr Credyd Cyffredinol Diweddaraf.<br>• Bil Y Dreth Gyngor diweddaraf yn dangos eithriad llawn myfyrwyr **(ar gyfer Ymgeiswyr Sengl yn unig).** Ar gyfer Myfyrwyr Newydd, efallai y byddwn yn derbyn Biliau Y Dreth Gyngor yn dangos Gostyngiad Person Sengl cyn dechrau'r cwrs.<br><br>Os yw'r plentyn dros 16 oed ac yn dal i fod mewn addysg llawn amser, mae angen tystiolaeth o hyn arnom, er enghraifft llythyr Budd-dal Plant (neu gyfriflen diweddar) Llythyr Credydau Treth a llythyr cofrestru gan Sefydliad Addysg Bellach. |
| | Rwy'n gwneud cais am Lwfans Dibynnydd a gofynnwyd imi ddarparu tystiolaeth Credydau Treth / Credyd Cynhwysol. Nid wyf yn derbyn y lwfansau. Beth ydw i'n ei wneud? | Os nad ydych wedi **gwneud cais** am Gredydau Treth neu Gredyd Cynhwysol, rhowch lythyr wedi'i lofnodi yn amlinellu'r rhesymau pam nad ydych wedi gwneud cais am y lwfansau hyn.<br><br>Os nad ydych yn **gymwys** i gael y lwfansau hyn, darparwch lythyr eglurhaol yn cadarnhau hyn a thystiolaeth ategol i ddangos nad ydych yn gymwys h.y. llythyr gan GThEM yn cadarnhau nad ydych yn gymwys neu ddatganiad / dyfarniad yn dangos credydau treth / credyd cynhwysol fel £0. |
| | Pryd sydd angen i mi anfon fy nghytundeb tenantiaeth neu fy natganiad morgais? | Bydd yn rhaid i chi anfon cytundeb tenantiaeth / datganiad morgais atom yn y sefyllfaoedd canlynol:<br><br>• Os ydych wedi hawlio 'cyfradd cartref rhieni' yn y flwyddyn academaidd flaenorol ac yn awr am newid i 'gyfradd rhywle arall' ar gyfer y flwyddyn academaidd sydd i ddod. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Os ydych wedi gwneud cais am Lwfans Dibynnydd ac wedi datgan treuliau eich priod / partner sifil / partner ar eich cais. |
| | Pa fathau o ID y byddwch chi'n eu derbyn? | Rydym yn derbyn y mathau canlynol o ID:<br>• Tystysgrif Geni - Gallwn dderbyn y naill fersiwn neu'r llall; byddwn yn cysylltu â chi os bydd angen fersiwn hir arnom yn benodol am unrhyw reswm.<br>• Pasbort<br>• Trwydded Yrru - Dim ond y cerdyn llun sydd ei angen arnom; gallwn hefyd dderbyn trwydded dros dro.<br>• Cerdyn Preswyl Biometrig - Gallwn dderbyn hwn os na allwch ddarparu'r dogfennau lluniau adnabod y gofynnwyd amdanynt.<br><br>Rhaid i'r holl dystiolaeth fod yn wreiddiol ac yn ddilys ar yr adeg sganio.<br><br>Yn y flwyddyn gyntaf y gwnewch gais am arian y GIG gofynnir i chi anfon eich tystysgrif geni a naill ai pasbort neu drwydded yrru. Fodd bynnag, os oes gennych Dystysgrif Geni y tu allan i'r DU byddem angen eich pasbort yn hytrach na'ch trwydded yrru er mwyn cadarnhau eich cenedligrwydd at ddibenion cymhwysedd.<br><br>Bydd methiant i ddarparu unrhyw dystiolaeth berthnasol yn arwain at<br>oedi cyn asesu eich cais. |
| **Olrhain Dogfennau** | | |
| | Sut alla i anfon fy nhystiolaeth atoch chi? | Os hoffech anfon gohebiaeth neu dystiolaeth ategol atom, defnyddiwch y cyfeiriad post canlynol:<br><br>**DST-NWSSP-SAS….**<br>**Cwmbran House**<br>**Ystad Parc Mamhilad**<br>**Pont-y-pŵl**<br>**NP4 0XS**<br><br>Cofiwch – Y cyfeiriad hwn yn **unig** y dylech chi ddefnyddio pan yn anfon eich dogfennau.<br><br>Os na allwch bostio'ch dogfennau atom, cysylltwch â ni ar ein Desg Gymorth a gallwn eich cynghori ynglŷn â'r camau nesaf.<br><br>Dim ond mewn amgylchiadau lliniarol y byddwn yn derbyn dogfennau trwy e-bost - rhaid postio'r holl dystiolaeth heblaw y cytunwyd yn wahanol gyda'r Tîm Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr.<br><br>Wrth anfon dogfennaeth/gohebiaeth gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys: |

| | | |
|---|---|---|
| | | - Eich Taflen Glawr Myfyrwyr y gellir ei chyrchu yn adran 'Dogfennau' eich cyfrif BOSS.<br>- Ysgrifennwch eich cyfeirnod SAS (ar gael ar eich cyfrif BOSS a'ch Taflen Glawr Fyfyriwr) uwchben llinell gyntaf ein cyfeiriad ar yr amlen.<br><br>Rydym yn argymell yn gryf eich bod yn anfon eich holl ddogfennau atom ni drwy 'Special Delivery' a'ch bod yn cynnwys amlen ddychwelyd â'ch cyfeiriad arni, gan gofio talu'r ffi gywir. Gofynnwn ichi wneud hyn fel bod modd ichi wirio a ydy'ch dogfennau wedi cyrraedd, wedyn olrhain eu taith ddiogel yn ôl ar ôl iddynt adael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCWC).<br><br>Bydd PCWC yn trin eich dogfennau gwreiddiol yn ddiogel ac yn gyfrinachol tra byddant o fewn ein meddiant. Ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb os aiff eitem ar goll ar ei ffordd inni neu yn ôl atoch chi wrth iddi gael ei chludo gan y Post Brenhinol neu gludwyr eraill. O'r herwydd, mae'n bwysig diogelu taith eich dogfennau. |
| | Beth sy'n digwydd i'm dogfennau ar ôl imi eu hanfon atoch? | Ar ôl derbyn dogfennaeth drwy'r post, cânt eu sganio ar eich cyfrif BOSS ar-lein a bydd statws eich cais yn newid o 'Yn yr Arfaeth' i 'Weithredol'.<br><br>Byddwn yn dychwelyd unrhyw ddogfennau rydych chi wedi eu hanfon atom ni o fewn 20 diwrnod gwaith o'u derbyn.<br><br>Os ydych wedi cynnwys amlen ddychwelyd hunan-gyfeiriedig gyda'ch dogfennau, bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i ddychwelyd eich dogfennau yn ddiogel atoch chi. Os na wnaethoch gynnwys amlen ddychwelyd hunan-gyfeiriedig, bydd eich dogfen yn cael ei dychwelyd trwy 2ail Ddosbarth y Post Brenhinol.<br><br>Bydd PCWC yn trin eich dogfennau gwreiddiol yn ddiogel ac yn gyfrinachol tra byddant o fewn ein meddiant. Ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb os aiff eitem ar goll ar ei ffordd inni neu yn ôl atoch chi wrth iddi gael ei chludo gan y Post Brenhinol neu gludwyr eraill. O'r herwydd, mae'n bwysig diogelu taith eich dogfennau. |
| | Sut y byddaf yn gwybod eich bod wedi dychwelyd fy nogfennau? | Os ydych wedi talu i'ch dogfennau gael eu dychwelyd trwy 'Special Delivery', byddwch yn derbyn hysbysiad gan Swyddfa'r Post i roi gwybod i chi am y statws olrhain. Sicrhewch eich bod yn cadw cofnod o'ch Rhif Olrhain.<br><br>Bydd eich statws cais yn dod yn 'Weithredol' unwaith y bydd eich dogfennaeth wedi'i sganio i'ch cyfrif BOSS.<br><br>Byddwn yn dychwelyd unrhyw ddogfennau rydych chi wedi eu hanfon atom ni o fewn 20 diwrnod gwaith o'u derbyn. |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| | A ddylwn i gynnwys amlen dychwelyd wedi'i thalu ymlaen llaw gyda fy nogfennau? | Rydym yn argymell eich bod yn anfon eich holl ddogfennau atom ni drwy 'Special Delivery' a'ch bod yn cynnwys amlen ddychwelyd â'ch cyfeiriad arni, gan gofio talu'r ffi gywir. Gofynnwn ichi wneud hyn fel bod modd ichi wirio a ydy'ch dogfennau wedi cyrraedd, wedyn olrhain eu taith ddiogel yn ôl ar ôl iddynt adael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCWC).<br><br>Os ydych wedi cynnwys amlen ddychwelyd hunan-gyfeiriedig gyda'ch dogfennau, bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i ddychwelyd eich dogfennau yn ddiogel atoch chi. Os na wnaethoch gynnwys amlen ddychwelyd hunan-gyfeiriedig, bydd eich dogfen yn cael ei dychwelyd trwy 2ail Ddosbarth y Post Brenhinol. |
| | Beth yw Taflen Glawr Myfyriwr a ble mae dod o hyd iddi? | Gallwch ddod o hyd i'ch Taflen Glawr Myfyriwr yn adran 'Dogfennau' eich cyfrif BOSS ar ôl i chi gofrestru ac actifadu eich cyfrif yn llwyddiannus.<br><br>Mae eich Taflen Glawr Myfyriwr yn cynnwys cod bar unigryw i sicrhau sganio cywir. Rhaid i chi anfon copi o'ch taflen glawr bob tro y byddwch chi'n darparu dogfennaeth neu ohebiaeth. Bydd hyn yn ein galluogi ni i sganio'r dogfennau i'ch cyfrif.<br><br>**Bydd methiant i anfon eich Taflen Glawr Fyfyriwr yn achosi oedi i'r broses sganio ac o ganlyniad i'ch asesiad cais.** |